



UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

19^{eg} Tachwedd 2018

Ystafell y Pwyllgor

Yn bresennol

Bruce Fraser Wight (BFW)

Anna Wyn (AW)

Louisa Fletcher (LF)

Molly Jean-Longden (MJL)

Alice Raven (AR)

Olympia Petrou (OP)

Ryan Beasley (RB)

Alan Roberts (AR) drwy Skype

- Llywydd, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr UMPA

- Swyddog Diwylliant Cymreig UMPA, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr

- Swyddog Cyfleoedd ac Ymddiriedolwr UMPA

- Swyddog Llesiant ac Ymddiriedolwr UMPA

- Ymddiriedolwr Israddedig UMPA

- Ymddiriedolwr Allanol UMPA

- Ymddiriedolwr Allanol UMPA

- Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Yn gwasanaethu

Trish McGrath (TM)

Anmarie Evans (AE)

- Prif Weithredwr UMPA

- Cynorthwydd Gweithredol UMPA (yn cymryd cofnodion)

GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafwyd anawsterau technegol, felly nid oedd Peter Curran yn gallu cysylltu drwy Skype.

Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Megan Hatfield.

2. Datganiadau o Fuddiannau

Doedd dim datganiadau o fuddiannau.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 26^{ain} Ebrill.

4. Materion sy'n Codi

Ni chodwyd unrhyw faterion.

STRATEGAETH

5. i. Cyllid: Cyfrifon Rheoli

Cyflwynodd TM adroddiad ar y meysydd lle'r oedd gorwariant a thanwariant. Hysbysodd y Bwrdd am faterion yn ymwneud â'r Cerdyn NUS Extra newydd (TOTUM erbyn hyn) ac eglurodd fod ganddi rai syniadau ynghylch gwariant ac y byddai'n anfon e-bost at yr Ymddiriedolwyr ar ôl y cyfarfod.

Nodwyd

6. Adroddiad y Prif Weithredwr

Rhoddodd TM drosolwg o'r gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Y meysydd a drafodwyd oedd ffigyrau cyfranogiad gan gynrychiolwyr, siaradwyr gwadd, ein Cynllun Gweithredu Blynyddol, a Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Nodwyd

7. Adroddiad y Swyddogion

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â Blaenoriaethau Swyddogion a sut rydym yn adrodd yn ôl arny'n nhw.

Nodwyd

8. Amcanion y Prif Weithredwr

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar Amcanion y Prif Weithredwr a osodwyd ganddo ef, RB ac OP, a gofynnodd i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

Cymeradwywyd

9. Llawlyfr Staff UMPA

Rhoddodd TM grynodedb o'r prif newidiadau a wnaed i'r Llawlyfr a gofynnodd i'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo'r newidiadau. Cytunodd OB i edrych dros y ddogfen ar ôl y cyfarfod, ond cymeradwywyd y ddogfen nes bod adolygiad wedi'i gynnal.

Cyfredol - OB

10. Cyfranogiad yn Undebau Myfyrwyr o Ansawdd (UMA)

Hysbysodd TM y Bwrdd am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i gyflawni marc UMA (Undebau Myfyrwyr o Ansawdd) a byddai'n rhoi diweddariad unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Hysbysodd TM y Bwrdd hefyd ei bod wedi ymgymryd â hyfforddiant gwiriwr UMA a fydd yn helpu ein dealltwriaeth o'r broses yn aruthrol.

Yn mynd rhagddo

11. Datblygiadau Adeiladu

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch sgysiau â Phenseiri ynglŷn â newidiadau i Adeilad Undeb y Myfyrwyr a Chanolfan y Celfyddydau. Cytunwyd y byddai TM yn anfon y cynlluniau allan cyn cyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr ym mis Ionawr, lle byddai'r mater yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder.

Gweithredu - TM

12. Polisiâu Newydd a basiyd yn y Senedd

Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth hirfaith ynghylch polisi *Prevent* a chytunwyd y dylid anfon datganiad ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Gweithredu - TM

Cafwyd trafodaeth bellach am bolisi cyfredol sydd gennym ynglŷn ag oriau gwaith myfyrwyr. Mae gan Undeb y Myfyrwyr bolisi yn erbyn y cyfyngiad 15 awr sydd gan y Brifysgol, a nawr ein bod yn cyflogi staff sy'n fyfyrwyr, hoffem i'r Ymddiriedolwyr ystyried ein bod yn caniatáu i fyfyrwyr weithio cymaint o oriau ag y dymunant.

CYMERADWYWYD

13. Recriwtio Ymddiriedolwyr Allanol

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'n hymgyrch recriwtio ddiweddar, a'r ffaith ein bod wedi methu â denu'r ymgeisydd iawn ar gyfer ein swydd wag. Cytunwyd y byddai RB yn ysgrifennu tystlythyr am ei brofiad fel Ymddiriedolwr ac y byddai OB yn ystyried ymgeiswyr posibl ar gyfer rôl Ymddiriedolwyr y gallem efallai gysylltu â nhw.

Gweithredu - Cyfredol

14. Unrhyw fusnes arall

Trafododd y Bwrdd sefyllfaoedd lle gallai'r polisi cyfryngau cymdeithasol fod yn cael ei dorri.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Gwener 18^{fed} Ionawr am 1.30pm